WG35.5.159

# Marwnad

AR

# FARWOLAETH DAVID REES,

## CEFNCADLE, LLANGYFELACH,

Yr hwn a fu yn aelod hardd a defnyddiol iawn yn yr eglwys Annibynol sydd yn cyfarfod yn y Mynydd-bach, am 47 o flynyddau; o hyny bu 40 mlynedd yn gwasanaethu swydd diacon gyda ffyddlondeb mawr. Hunodd yn yr Arglwydd, Ionawr 10, 1843, yn 82 oed. Claddwyd ef yn mynwent y Mynydd-bach. Ar yr achlysur darllenwyd a gweddiwyd gan Mr. David Roberts, aelod a phregethwr yn y lle uchod; a phregethwyd gan weinidog y lle, oddiwrth Jos. 23. 11. geiriau a neillduasid gan y trengedig, i fod yn destun yn ei angladd.

*"Ysgrifena, Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."*

*"Bydd ffyddlon hyd angeu, ac mi a roddaf i ti goron y bywyd."*

---

Gan JOHN DAVIES, Mynydd-bach.

---

ABERTAWY:

ARGRAFFWYD GAN E. GRIFFITHS, HEOL FAWR.

1843.

X205313778

## MARWNAD, &c.

1 Duw y duwiau sy'n teyrnasu
  Yn mrenhiniaeth dynol-ryw;
Fe sy'n rhoddi bôd a bywyd,
  Fe sy'n lladd a chadw'n fyw;
'Nol ei gyngor mae'n rheoli,
  Ac yn trin ei luoedd maith;
Doeth a chadarn yw ei arfaeth,
  Byth safadwy yw ei waith.

2 Angeu gafodd ei awdurdod
  O'r orseddfa uwcha'n bod,
Tori mae â'i gleddyf miniog,
  Cryf a gwan sydd dan ei dro'd;
Marw mae y saint perffeithiaf,
  Fel yr holl annuwiol gryw,
Pob rhyw radd a phob rhyw oedran,
  Ant o'r byd i wyddfod Duw.

3 Angeu ddaeth i Gefn Cadle,
  Daeth fel brenin braw i'r tŷ;
Dan ei saethau DAFYDD waeddodd,
  "Chwareu teg i'r angeu hy';
Mae fy mywyd wedi guddio
  Gyda Iesu Grist yn Nuw;
Colyn angeu ffwrdd a dynwyd,
  'Gwn fod genyf Brynwr byw.'"*

* Buan wedi i'w ddolur angeuol ei gymmeryd, pallodd ei archwaeth at fwyd; a phan y byddai ei anwyl briod a'i blant yn ei gymhell i gymmeryd ychydig luniaeth, yntau ddywedai, yn ol ei ddull cyffredin ac arferol, "Na, na, chwareu teg i angeu, pan y daeth i wneud ei orchwyl."

4 Ar y degfed dydd o Ionawr,
Mil wyth cant a phedwar deg,
Tair yn chwaneg, oedran Iesu,
Daeth i ben ei ymdrech deg:
Saith a deugain o flynyddau
Bu yn aelod eglwys Dduw,
Deugain mlynedd bu yn swyddog
Yn nghynteddoedd Sïon wiw.

5 Dydd cymundeb y gyn'lleidfa,
Sabboth cofio angeu'r groes,
Os yn eisieu byddai DAFYDD,
Pawb a deimlent hyny'n loes;
Gyda'r bwrdd, a chyda'r lliain,
Gyda'r bara, gyda'r gwin,
Gyda'r achos, gyda'r brodyr,
Ei ffyddlonach nid oedd un.

6 'Roedd ei barch yn barch cyffredin,
Per-aroglai'n beraidd iawn,
O foreuddydd dyddiau'i grefydd,
Nes machludo'i haul brydnawn;
Bendith Duw a'i gwnaeth yn fendith,
Bendith helaeth yn mhob man,
Yn ei deulu, yn yr eglwys,
Yn mhob cylch fe wnaeth ei ran.

7 Hawddgar briod ydoedd DAFYDD,
Tad teimladwy iawn oedd ef,
Fe ymdrechodd dros ei deulu
Yn ei yrfa tua'r nef:
Agos pedair gwaith darllenodd,
Yn ei dŷ, holl Fibl Duw,
Wrth addoli gyda'i deulu—
Hynod dduwiol bu ef byw.

8 DAFYDD ydoedd filwr ffyddlon,
Daliodd frwydrau poetha'r ma's,

Gwr yn cadw'i arfau'n loyw,
Gwr â'i bwys ar ddigon gras;
Nid rhyw wyntoedd cryfion, rhewllyd,
Eira, gwlaw, na duwch nos,
Byth a rwystrai'i gyd-gynnulliad
Gyda theulu Crist a'i groes.

9 Uchel lwybrau Cefn Cadle,
Uchel fryn y Mynydd-bach,
Trwy bob tywydd fe a'u teithiodd,
Pryd na byddai'n berffaith iach;
Ei nodweddiad oedd ffyddlondeb,
Dilyn Iesu oedd ei wledd,
Ei dduwioldeb a flodeuodd
Arno fwyfwy hyd ei fedd.

10 Mab tangnefedd ydoedd DAFYDD,
"Heddwch, heddwch," meddai ef;
Ni chai dichell le'n ei fynwes,
Tebyg oedd i deulu'r nef;
O, mor barod oedd i faddeu,
Maddeu'r oll, a maddeu'n rhad;
Lledai fantell dros y brychau,
Nid adwaenai ysbryd brad.

11 Cofiodd DAFYDD lettygarwch,
Yn dra ffyddlon flwyddau maith,
I genhadau Brenin heddwch
Yn eu neges ar eu taith;
Bwrdd, canhwyllbren, 'stol, a gwely,
A ddarparodd ar y mur,
Er ymgeledd i'r lluddedig
Dan y groes mewn anial dir.

12 Crefydd oedd ei waith a'i fywyd,
Crefydd oedd ei fara pur,
Crefydd oedd ei fwyd a'i ddiod,
Dan bob croes a chwerw gur;

Crefydd oedd ei brif hyfrydwch,
Crefydd oedd ei goron rad,
Crefydd oedd ei gerbyd tanllyd,
Ynddo'r aeth i'r nefol wlad.

13 Dafydd, Dafydd, ti'n gadawaist,
Do, diengaist arnom ni,
Yn dy gerbyd goleu tanllyd,
I drigfanau'r nefoedd fry;
Mi ddychymmygaf gwela'i'th wyneb
Yn mhlith miloedd tŷ dy Dad,
Ac y clywa'i'th gân yn uchel
Am rinweddau maith y gwa'd.

14 Sïon egwan, paid ag wylo,
Sych dy ddagrau, seinia'th gân,
Nac ymollwng dan dy groesau,
Mae Duw o'th du, daw'r arch yn mla'n;
Er bod dewrion gwersyll Israel
Yn ein gadael ar y ma's,
Ni chaiff gwersyll Sïon sefyll—
Cadarn yw addewid gras.

15 Na ddiffygiwn, byddwn effro,
Oll fel eglwys Mynydd-bach;
Er i'r milwr gwrol huno,
Mae ei ysbryd byw yn iach;
Mae fy meddwl yn ehedeg
Draw i gulfor angeu du,
I drigfanau perffaith wynfyd,
At y dyrfa ddisglair fry.

16 Fry mi wela' fyrdd myrddiynau,
Oll yn dwyn eu gwaith yn mla'n,
Pawb yn un fel telynorion,
A'u anthemau'n llawn o dân;
Fry, pob sant sydd berchen telyn,
Ond un cwlwm ydyw'r gân,

Gan y dorf fu'n mheiriau'r golchi,
'Nawr a'u gynau'n berffaith lân.

17 Mae fy meddwl llon yn gofyn
I ti, DAFYDD, Beth yw'th waith
Heddyw, draw, o swn elfenau,
Yn y trag'wyddolfyd maith?
Beth yw'th lun, dy ffurf, a'th ddelw,
Yn y nef, heb gorff o bridd?
A wyt ti'n teimlo, gwel'd a gweithio,
A mwynhau yn berffaith rhydd?

18 A wyt ti'n gweled fel yr eryr,
Yn yr eangderau mawr?
A adwaena'r saint eu gilydd
Yn y nef, fel ar y llawr?
A adwaenost Enoc, Noa,
Abra'm, Isaac, Jacob, clyw,
Moses, Dafydd, ac Elias,
Daniel, Paul, hen dystion Duw?

19 A oes torf o ryfeddodau
Yn ngoleuni'r nefol fyd,
Yn ymdywallt dros eu gilydd,
Byth i lenwi'n llawn dy fryd?
A yw pethau gwlad y bywyd
Fel meddyliaist gynt eu bod?
Ai y Duwdod yn y Dyndod
Sydd gan bawb yn cael y clod?

20 Ai fel darlunia Watts a Goodwin,
Baxter hy', mewn geiriau glân,
Gill a Henry, gyda hyny,
Mae gwaith y nef yn myn'd yn mla'n?
Dyfal chwilio a gweddio,
A myfyrio yn y bla'n,
Pregethu byth yr Aberth iawnol,
Ynte dim ond seinio cân?

21 Mae holl ddoniau y gogoniant,
'Nol eu nerth, i gyd mewn gwaith,
Pawb o'r dyrfa o'r un anian,
O'r un ysbryd, o'r un iaith,
Cyd-ddyrchafant am yr uwcha',
Goron Duwdod yn y Dyn;
Nid oes ddadleu am y doniau,
Codi gras yw gwaith pob un.

22 Yn ffurfafen oleu'r bywyd,
Gwyn eu gwawr yw'r werin wiw,
Un yw tyrfa ser Jehofa,
Haul pob un yw gwir Fab Duw;
Pawb yn plethu cainc anfarwol
I'r trag'wyddol gariad rhad,
Am eu caru, prynu, golchi,
Trwy anfeidrol rin y gwa'd.

23 A oes graddau yn y gwynfyd,
Mawr a mwy, a rhai yn fach?
A fedri wel'd dy gorff yn gorwedd
Yn llwch mynwent Mynydd-bach?
Clyw, A elli 'nawr, fel angel,
Dd'od o'r wynfa wen i lawr?
A wyt dyst o'n cyfeillachau,
'Modd mae gyda ni yn awr?

24 Digon ydyw gweled Iesu,
Delw Duw, a Haul y wlad;
Digon ydyw iachawdwriaeth,
A'i bendithion Dwyfol rhad;
O! mor uchel yr ehedaist
Draw o'r byd, tu fewn i'r llen,
I oleuni gwyneb Iesu,
Byth roi'r goron ar ei ben.

25 Rhoddaf gyngor mwyn i'r weddw—
Ymgysurwch yn eich Duw;

I chwi a'ch priod, 'doedd yr ammod
Ond "hyd angeu" i gyd-fyw;
Mae eich dyddiau ar derfynu,
Ato'n fuan ewch i'r bedd;
Rhowch eich pwys ar ras y bywyd,
Cewch gyd-fyw yngwlad yr hedd.

26 Pan ddel 'r hanes atoch, Dafydd,*
Drosodd i'r gorllewin wlad,
I'ch hysbysu oll fel teulu,
Am farwolaeth eich hoff dad;
Daliwch, peidiwch wylo llawer,
Llawenhewch am dano ef;
Cadarn dystiodd cyn ymadael,
Bod ei goron yn y nef.

27 Cofiwch chwi, y plant sy'n briod,
Dafydd, Evan, Thomas, Ann,
Ei gynghorion grasol, beunydd
Ceisiwch Dduw eich tad yn rhan.
John a Mary, chwi sydd gartref
Gyda'ch mam, cewch gyngor mâd—
Codwch allor, allor gweddi,
Yn y teulu fel eich Tad.

28 Iachawdwriaeth gras y bywyd,
Boed yn fywyd i chwi gyd,
Fel y caffoch ail gyfarfod
Yn y gwynfyd oll ynghyd;
Duw pob gras a'ch llwyr fendithio
A bendithion dae'r a nen,
Crist a'i deyrnas fyddo'n eiddo
I'r holl deulu byth. Amen.

* Ei fab sydd yn America.

---

*E. Griffiths, Argraffydd, Abertawy.*